CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNOD - MAWRTH 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 15 Mawrth 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhostryfan**

a) **Croeso**
Cadeirwyd y cyfarfod gan Jason Hunt. Yn bresennol roedd Michelle Williams, Tom Ellis, Gwilym V Thomas, Nerys Evans a Caryl Lewis (Clerc)

b) **Ymddiheuriadau**
Neal Williams, Elin Evans, Rhys Owen, Elwyn Jones, Gwilym Ll Williams, Aeron M Jones, Les Williams.

c) **Datgan Buddiant**
Dim i'w nodi

d) **Cadarnhau cofnodion 15 Chwefror 2017 a materion yn codi**
Cytunwyd eu bod yn gywir.

e) **Materion i'w trafod:**

a) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos
NE a JH wedi mynchu'r cyfarfod diwethaf ar 9fed Mawrth. Cafwyd trafodaeth o amgylch ffurfio cyfansoddiad ar gyfer creu partneriaeth ffurfiol. Llawer o syniadau yn cael eu trafod ond dim syniadau pendant ar hyn o bryd. Mae'n anodd gweld beth fydd y posibiliadau gan nad oes gan Cyngor Cymuned Llanwnda unrhyw asedau felly anodd gwybod beth fydd ein cyfraniad a sut byddai unrhyw elw yn cael ei rannu. Angen penderfynu fel Cyngor os ydym am umuno neu ddim pan bydd mwy yn bresennol.

b) MW - Dwr yn dod lawr lon Rhosgadfan (Ty Hen)
Clerc yn aros am ymateb gan Cyngor Gwynedd.

c) NE – Llythyr gan Llywodraethwyr Rhostryfan, Cyngor Gwynedd wedi rhoi ffens o amgylch yr ysgol, oes bosib rhoi llwybr or stesion?
Clerc wedi gyrru llythyr o gefnogaeth a gofyn iddynt drafod yr opsiynau gyda Cyngor Gwynedd.

d) NE – Bin sbwriel tu allan i Bryn Melyn, wedi diflannu.
Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.

e) EJ – Bin ger siop Rhostryfan wedi diflannu
Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.

f) EE – Ochr y lon ger junction Ffrwd Cae Du wedi malurio.
Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd; "Mae'r ymyl gwyrdd yn cael ei ddifrodi gan gerbydau sydd yn gwasgu heibio cerbydau eraill ar y gyffordd. Mae hyn yn digwydd yn ystod cyfnodau traffic trwm ac y debygol o barhau. Er bod yn ymyl gwrydd yn edrych yn hull oherwydd y difrod, does dim byd yn achosi perygl i ddefnyddwyr y ffordd gan fod cerddwyr yn defnyddio'r llwybr troed. Nid ydwyf yn gweld unrhyw bwrpas i gyflawni gwaith tacluso yma oherwydd mae'n debygol o fod yn union yr un cyflwr y diwrnod canlynol. O ran cerbydau yn gyrru ar hyd y llwybr troed, mae hyn yn fater i'r Heddlu weithredu'r gyfraith i'w nadu.

g) EJ – Angen agor ffoes ar llwybr bryngwyn a torri ychydig o eithin ochr y giat mochyn. Hefyd mae twll mawr yn y lon wrth Ger y Gorwel wrth lon Llwyn Onn. Wedi trefnu fod Wyn Williams yn gwneud y gwaith ar lwybr Bryngwyn. Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd "Gwêl y Gorwel, Lon Dolwar - Mae'r arolygwr wedi trosglwyddo'r safle i'r gweithlu ei drwsio."

h) GLLW – Gwrychoedd Pen y Groeslon a gwar Bryn Melyn, wedi tyfu. Tai yr Onnen, gwrych gardd allan ir ffordd yn bell ac yn gwneud y lon yn gul iawn. Clerc wedi derbyn yr ymateb canlynol gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd; Gordyfiant Bryn Melyn a Pengroeslon. Mae'r gwaith tocio nôl wedi ei gynnwys

	ar restr y Gang Cymunedol yn ystod y cylch nesaf. Gordyfiant Tai'r Onnen, Rhos Isaf. Mae'r arolygwr ffyrdd wedi cysylltu gyda'r tir berchennog yn gofyn iddynt docio yn ôl. Maent wedi cytuno cyflawni'r gwaith, a bydd yr arolygwr yn ail ymweld â'r safle o fewn cyfnod o dair wythnos i wneud yn siŵr bod hyn wedi ei gwblhau." i) RO – Wrth swyddfeydd Bwrdd Dwr Dinas i fyny at y bont rheilffordd, gwrych heb ei dorri digon. Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd "Gordyfiant ger Depot Dwr Cymru. Mae archeb eisoes wedi ei godi i'r gweithlu gyflawni'r gwaith. Mi wnawn ddilyn y mater fyny gyda nhw." j) GVT – Cyflwr lon tarmac drwy Rhosgadfan am Fron yn ddifrifol, oes bwriad gwneud gwaith ar hyn. Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd "Penyffridd, Rhosgadfan. Ymateb eisoes wedi ei ddarparu, gwaith clytio dros dro ar ei'n rhaglen waith." k) RO – Saron - Tyllau yn y lon a grass verge wedi ei falurio yn dilyn gwaith gan BT yn ddiweddar. Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd; "BT - Saron. Mae'r gwaith twtio wedi ei gynnwys ar raglen y Gang Cymunedol."
6.	**Derbyn Adroddiadau** Gwaith codi wal y fynwent Cafwyd trafodaeth o amgylch y pecyn tendro. Roedd Aelodau yn teimlo ei fod yn gynamserol mynd allan am brisiau ar hyn o bryd ac y byddai'n syniad aros nes y bydd pethau'n gliriach gyda gwaith ffordd osgoi Bontnewydd. Bydd angen penderfyniad yn y cyfarfod nesaf pan fydd mwy yn bresennol os ydym am ohirio neu cael prisiau i mewn rwan.
7.	**Is-bwyllgorau**
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 13 Mawrth 2017** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **12,338.87** + Llog 1.35 **Balans ar derfyn busnes 13 Mawrth 2017 12,340.22** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **4,987.52** + 3 Claddiad 680.00 - 101400 Caryl E Lewis Chwef 438.51 - 101002 Swyddfa'r Post – PAYE Chwef 99.00 - 101001 Caryl E Lewis Printer Inks 67.00 - 101013 Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle 50.00 - 101399 Un Llais Cymru 127.50 - 101006 Clwb Peldroed Bontnewydd 150.00 **Balans ar derfyn busnes 13 Mawrth 2017: 4,735.51** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Mawrth 2017:** Cyflog Clerc Maw 438.51

	Antur Nantlle	108.00
	Cyllid y Wlad Maw	99.00
	Wyn Williams	840.50
	Archwilwyr BDO	326.55
	Cyfanswm	**1,812.56**

b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol

Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn y dogfennau ariannol i'w llenwi ac y bydd angen trefnu cyfarfod o'r is grwp cyllid yn fuan i fynd drwy'r cyfrifon. Cytunwyd i benodi John Roberts fel yr archwiliwr mewnol unwaith eto ac y bydd y Clerc yn mynd ati i'w lythyru a'i wahodd i wneud y gwaith. Yna byddwn yn derbyn ddyddiad gan John er mwyn gyrru'r dogfennaeth ato.

9. **Materion Cynllunio**

2 Gais i mewn:

C17/0228/24/LL – Tir ger Bryn Coch, Rhos Isaf – ychwanegu estyniad bach i gefn ymodurdy
Dim sylw

C17/0193/24/LL – Ty Uchaf, Llanfaglan – Adeiladu modurdy i anecs bresennol.
Dim sylw

10. **Gohebiaeth a chylchgronnau**

Cyngor Gwynedd – Cytundeb ar gyfer gwagio bin Mynwent Cefnfaes wedi ei dderbyn, cytunwyd i'w adnewyddu.

11. **Materion Cyfarfod Nesaf**

GVT – Storm diwethaf, death polyn letrig i lawr yn Bodfan, Rhosgadfan, tydy'r lamp byth wedi ei roi yn ol. Dim pwer yn mynd i mewn i'r arwydd 30 rwan, ydy nhw wedi cysylltu yn ol yn iawn?
MW – Bylbiau a blannwyd o amgylch y pentrefi dal heb agor
NE – Ffin rhwng ni a Llandwrog (Groeslon) sef heibio Bryn Peris at Maes Tryfan), mae'r llinellau gwyn oddi ar y lon wedi gwisgo, felly pan yn dod i lawr tydy o ddim yn amlwg fod angen sdopio.

Dyddiad: 19 Ebrill 2017
Lleoliad: Canolfan Llanwnda